Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

# Polisi Preifatrwydd

## 1. Cefndir

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmni i Grŵp Cynefin sydd hefyd wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014. Mae hefyd yn Elusen Cofrestredig gyda'r Comisiwn Elusenau.

Mae gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ei Fwrdd Rheoli ei hun gyda chyfrifoldeb am asedau a rhwymedigaethau'r asiantaeth ac mae'n adrodd i'r rhiant-asiantaeth.

Prif weithgaredd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yw darparu gwasanaethau tai i bobl hŷn neu bobl fregus i aros yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae gwasanaeth gwelliannau i'r cartref a garddio Gerddi Gwyrdd a chrefftwyr manion swyddi yn hunangynhaliol ac yn gwella'r gwasanaeth craidd wrth gefnogi pobl hŷn neu fregus yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn i drwsio, addasu a chynnal eu cartrefi fel y medrant barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae'r holl bobl hŷn yn medru byw'n annibynnol mewn cartrefi diogel, cynnes a hygyrch.
Fel yr Hyrwyddwr Tai Pobl Hŷn, rydym ni wedi darparu, esblygu a chyflwyno gwasanaethau arloesol sy'n cynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am dros 30 mlynedd bellach. Rydym ni'n gweithio gydag ystod eang o bartneriaid lleol a chenedlaethol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
Mae ein gwasanaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi ei deilwra i anghenion pob unigolyn ac yn darparu cyngor a chymorth ar ystod o faterion.

**Newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn**

Gallem newid y polisi preifatrwydd hwn o dro i dro trwy ddiweddaru'r dudalen hon er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ein harferion preifatrwydd. Rydym ni'n eich hannog chi i wirio'r hysbysiad preifatrwydd hwn am newidiadau pryd bynnag y byddwch chi'n edrych ar ein gwefan.

**Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych a'n Swyddog Diogelu Data**

Mae gennym ni Swyddog Diogelu Data penodol. Cewch gysylltu gyda'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio'r manylion isod neu trwy ysgrifennu i'r cyfeiriad uchod, a'i nodi at sylw'r Swyddog Diogelu Data.

## 2. Pa fathau o wybodaeth bersonol amdanoch chi ydym ni'n ei phrosesu?

Mae'r wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei phrosesu yng nghyswllt ein holl gynhyrchion a gwasanaethau, os yw'n berthnasol, yn cynnwys:

- **Manylion personol a manylion cyswllt,** megis teitl, enw llawn, manylion cyswllt a hanes manylion cyswllt
- **Eich dyddiad geni, rhyw a/neu oedran**
- **Eich cenedligrwydd**, os oes angen hynny ar gyfer y cynnyrch neu'r gwasanaeth
- **Aelodau'r teulu** os ydynt yn warcheidwad
- **Cofnodion eich cyswllt gyda ni**, os ydych chi'n cysylltu gyda ni ar-lein gan ddefnyddio ein gwasanaethau ar-lein.
- **Cynhyrchion a gwasanaethau** rydych chi'n eu derbyn gennym ni, yn ogystal â'r rhai rydych chi wedi dangos diddordeb ynddynt ac wedi eu derbyn a'r dulliau talu cysylltiedig a ddefnyddiwyd
- **Marchnata i chi a dadansoddi data**, yn cynnwys hanes y cyfathrebiadau hynny, p'un ai ydych chi'n eu hagor neu'n clicio ar ddolenni, a gwybodaeth am y cynhyrchion a'r gwasanaethau y credwn y byddai gennych chi ddiddordeb ynddynt, a dadansoddi data i gynorthwyo i dargedu cynigion i chi y credwn sydd o ddiddordeb neu'n berthnasol i chi.
- **Gwybodaeth am eich iechyd neu os ydych chi'n gwsmer bregus**
- **Gwybodaeth am eich eiddo**, megis lleoliad, gwerth, nifer yr ystafelloedd, math o eiddo a gwaith adeiladu a wnaed yno
- **Manylion ariannol amdanoch chi**, megis eich cyflog a manylion unrhyw incwm arall, manylion am eich cynilion, manylion eich gwariant a'r dull(iau) talu
- **Manylion am eich benthyciadau cyfredol**, os yw'n berthnasol
- **Gwybodaeth am eich statws cyflogaeth**, os yw'n berthnasol
- **Gwybodaeth am statws meddiannu eich eiddo**, megis a ydych chi'n denant, byw gyda'ch rhieni neu'n berchennog breswylydd yr eiddo lle'r ydych chi'n byw ar adeg eich cais
- **Eich statws preswylio a/neu ddinasyddiaeth**, os yw'n berthnasol, megis eich cenedligrwydd, hyd eich cyfnod preswylio yn y Deyrnas Unedig a/neu a oes gennych chi hawl parhaol i breswylio yn y Deyrnas Unedig
- **Eich statws priodasol, teulu, ffordd o fyw neu amgylchiadau cymdeithasol**, os yw'n berthnasol i'r cynnyrch (er enghraifft, nifer y dibynyddion sydd gennych chi neu a ydych chi'n ŵr neu wraig weddw)
- **Gwybodaeth am unrhyw warantydd** rydych chi'n ei darparu yn unrhyw gais
- **Trafodion trydydd parti**; megis lle bo unigolion ac eithrio deilydd y cyfrif yn defnyddio'r gwasanaeth, gwybodaeth am yr unigolyn hwn a'r trafodion

## 3. Beth yw ffynhonnell eich gwybodaeth bersonol?

Byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol o'r ffynonellau cyffredinol a ganlyn:

- Gennych chi yn uniongyrchol, ac unrhyw wybodaeth gan aelodau'r teulu, cysylltiadau neu fuddiolwyr cynhyrchion a gwasanaethau
- Gwybodaeth a gynhyrchir gennych chi pan fyddwch chi'n defnyddio ein cynhyrchion a'n gwasanaethau
- Ffynonellau eraill fel Asiantaethau Atal Twyll, Asiantaethau Gwirio Credyd, benthycwyr eraill, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwybodaeth a chyfeirlyfrau sydd ar gael yn gyhoeddus (er engrhaifft, llyfr ffôn, cyfryngau cymdeithasol, y rhyngrwyd, erthyglau newyddion), adfer dyledion a/neu asiantau olrhain, sefydliadau eraill i gynorthwyo wrth atal ac adnabod troseddau, yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

---

## 4. Ar gyfer beth rydym ni'n defnyddio eich data personol chi?

Rydym ni'n defnyddio eich data personol, yn cynnwys unrhyw ddata personol a restrir yn adran 1 uchod, at y dibenion a ganlyn:

- Asesu cais am gynnyrch neu wasanaeth, yn cynnwys ystyried p'un ai i gynnig y cynnyrch neu'r gwasanaeth i chi ai peidio, y pris, risg gwneud hynny, y dulliau talu sydd ar gael a'r telerau
- Rheoli cynhyrchion a **gwasanaethau** sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw, neu gais am un
- Diweddaru eich cofnodion, canfod eich lleoliad ac adfer dyledion
- Rheoli unrhyw agwedd o'r cynnyrch neu'r gwasanaeth
- Gwneud penderfyniadau awtomatig ynghylch p'un ai i gynnig cynnyrch neu wasanaeth i chi ai peidio, neu'r pris, dull talu, risg neu delerau'r cynnyrch/gwasanaeth
- Cyflawni a/neu brofi perfformiad ein cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau mewnol
- Gwella gweithrediad ein busnes a'n partneriaid busnes
- Dilyn canllawiau ac arfer orau dan y newidiadau i reolau cyrff llywodraethol a rheoleiddiol
- Rheoli ac archwilio ein gweithrediadau busnes yn cynnwys cyfrifyddu
- Monitro a chadw cofnodion o'n cyfathrebiadau gyda chi a'n staff (gweler isod)
- Gweinyddu ein gofynion llywodraethu da a rhai ein haelodau, megis adroddiadau mewnol a goblygiadau cydymffurfio neu weinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer prosesau'r Cyfarfod Blynyddol
- Ymchwil i'r farchnad a dadansoddi a datblygu ystadegau
- Cydymffurfio gyda goblygiadau, gofynion a chanllawiau cyfreithiol a rheoleiddiol
- Darparu dadansoddiad o'n cleientiaid ar ein cyfer ni ac er budd partneriaid busnes, un ai fel rhan o ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau, neu i asesu neu wella gweithredu ein busnesau
- Rhannu gwybodaeth, fel bo angen, gyda phartneriaid busnes (er enghraifft, sefydliadau gwasanaethau ariannol, yswirwyr), buddiolwyr cyfrif, darparwyr gwasanaeth neu fel rhan o ddarparu a gweinyddu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu weithredu ein busnes

## 5. Beth yw’r sail gyfreithiol i ni fod yn prosesu eich gwybodaeth bersonol chi (yn cynnwys pryd rydym ni’n ei rhannu gydag eraill)?

Rydym ni’n dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn i ddefnyddio eich data personol:

1. **Lle bo’i angen i ddarparu ein cynhyrchion neu wasanaethau i chi**, megis:

a) Asesu cais am gynnyrch neu wasanaeth gennym ni, yn cynnwys ystyried p’un ai i gynnig y cynnyrch i chi ai peidio, y pris, y dulliau talu sydd ar gael a’r amodau cysylltiedig
b) Rheoli cynhyrchion neu wasanaethau rydych chi’n eu derbyn gennym ni, neu gais am hynny
c) Diweddaru eich cofnodion, canfod eich lleoliad i gysylltu gyda chi am eich cyfrif a gwneud hyn i adfer dyledion (lle bo’n briodol)

ch) Rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda phartneriaid busnes a darparwyr gwasanaethau pan fyddwch chi’n gwneud cais am gynnyrch i gynorthwyo i reoli eich cynnyrch
d) Pob cam a gweithgaredd sy’n berthnasol i reoli’r cynnyrch neu’r gwasanaeth, yn cynnwys ymholiad, cais, gweinyddu a rheoli’r cyfrifon a lluniau.

dd) Peth o’n gwaith proffilio a gwneud penderfyniadau awtomatig eraill i benderfynu p’un ai i gynnig cynnyrch a/neu wasanaeth i chi ai peidio, dull talu penodol a phris neu delerau hyn

2. Lle bo **er budd cyfreithlon i wneud hynny**, megis:

- a) Rheoli eich cynhyrchion a gwasanaethau’n gysylltiedig **â** hynny, diweddaru eich cofnodion, canfod eich lleoliad i gysylltu gyda chi am eich cyfrif a gwneud hyn ar gyfer adfer dyledion (lle bo’n briodol)
b) Cyflawni a/neu brofi perfformiad ein cynhyrchion, gwasanaethau a phrosesau mewnol
c) Dilyn canllawiau ac arferion gorau a argymhellir gan y llywodraeth a chyrff rheoleiddio
ch) Rheoli ac archwilio ein gweithrediadau busnes yn cynnwys cyfrifyddu
d) Monitro a chadw cofnodion o’n cyfathrebiadau gyda chi a’n staff (gweler isod)
dd) Gweinyddu ein gofynion llywodraethu da a rhai aelodau ein Grŵp, megis adroddiadau mewnol a goblygiadau cydymffurfio neu weinyddiaeth sy’n ofynnol ar gyfer prosesau’r Cyfarfod Blynyddol
e) Ymchwil i’r farchnad a dadansoddi a datblygu ystadegau
f) Cyfathrebu marchnata uniongyrchol a phroffilio cysylltiedig i’n helpu gynnig cynhyrchion a gwasanaethau perthnasol i chi, yn cynnwys p’un ai i gynnig cynhyrchion a gwasanaethau penodol i chi ai peidio
ff) Yn ddarostyngedig i fesurau rheoli priodol, darparu dadansoddiad o’n cwsmeriaid i bartneriaid busnes un ai fel rhan o ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau, ein cynorthwyo i wella cynhyrchion neu wasanaeth neu i asesu neu wella gweithredu ein busnesau
g) Peth o’n gwaith proffilio a gwneud penderfyniadau awtomatig eraill
ng) Lle bo angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol gyda phobl neu sefydliadau er mwyn cynnal ein busnes neu gydymffurfio ag unrhyw oblygiadau cyfreithiol a/neu reoleiddiol

3. Cydymffurfio gyda'n **goblygiadau cyfreithiol**

4. **Gydag** eich **caniatâd neu ganiatâd penodol chi**:

   a) Peth cyfathrebu marchnata uniongyrchol
   b) Peth o'n gwaith proffilio a gwneud penderfyniadau awtomatig eraill
   c) Peth o'n prosesu categorïau arbennig data personol fel eich iechyd, os ydych chi'n gwsmer bregus.

5. Er **budd cyhoeddus**, megis:

   a) Prosesu categorïau arbennig data personol fel eich iechyd, neu os ydych chi'n gwsmer bregus.

---

## 6. Pryd rydym ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda sefydliadau eraill?

Gallem rannu gwybodaeth gyda'r trydydd partïon a ganlyn at y dibenion a restrir uchod:

- Partneriaid busnes (er enghraifft, sefydliadau gwasanaethau ariannol, yswirwyr), buddiolwyr cyfrif, neu eraill sy'n rhan o ddarparu eich cynhyrchion a gwasanaethau neu weithredu ein busnes e.e Grwp Cynefin
- Cyrff llywodraethol a rheoleiddio fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus, yr Ombwdsmon, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Sefydliadau a busnesau eraill sy'n darparu gwasanaethau i ni megis asiantaethau adfer dyledion, darparwyr y gweinyddydd a'r ddarpariaeth wrth gefn, darparwyr meddalwedd Technoleg Gwybodaeth a chynnal a chadw'r meddalwedd, darparwyr storio dogfennau a darparwyr swyddogaethau swyddfa gefn eraill
- Sefydliadau ymchwil i'r farchnad sy'n ein cynorthwyo i ddatblygu a gwella ein cynhyrchion a'n gwasanaethau

---

## 7. Sut a phryd fedrwch chi dynnu eich caniatâd yn ôl?

<u>Lle rydym ni'n dibynnu ar eich caniatâd chi i brosesu ein data personol</u>, cewch dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg trwy gysylltu gyda ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

---

## 8. Beth ddylech chi ei wneud os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid?

Dylech ddweud wrthym ni fel y medrwn ni ddiweddaru ein cofnodion gan ddefnyddio'r manylion yn adran Cysylltu gyda Ni ein gwefan. Yna fe wnawn ni ddiweddaru eich cofnodion os y medrwn.

---

## 9. A oes rhaid i chi ddarparu eich gwybodaeth bersonol i ni?

Ni fedrwch ddarparu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau i chi os nad ydych chi'n darparu gwybodaeth benodol i ni. Mewn achosion lle bod darparu peth gwybodaeth bersonol yn ddewisol fe wnawn ni wneud hynny'n glir.

---

## 10. A ydym ni'n gwneud unrhyw fonitro o ran prosesu eich gwybodaeth bersonol chi?

Yn yr adran hon mae monitro yn golygu unrhyw: wrando ar, recordio, gwylio, ailgyfeirio, cymryd a chadw cofnodion (fel bo'n berthnasol) galwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, mewn cyfarfodydd personol (wyneb i wyneb) a chyfathrebiadau eraill.

Gallem fonitro lle caniateir gwneud hynny yn ôl y gyfraith ac fe wnawn ni wneud hyn lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu i gydymffurfio gyda rheolau rheoleiddio, atal neu adnabod troseddau, er budd diogelu diogeledd ein systemau a gweithdrefnau cyfathrebu ac ar gyfer dibenion rheoli ansawdd a hyfforddiant staff. Gellid rhannu'r wybodaeth hon at y dibenion a ddisgrifir uchod.

---

## 11. Am ba hyd y cedwir eich gwybodaeth bersonol gennym ni?

Oni bai ein bod ni'n esbonio fel arall wrthych chi, gwnawn gadw eich gwybodaeth bersonol ar sail y meini prawf a ganlyn:

- Gyhyd ag y bo gennym ni anghenion busnes rhesymol, megis rheoli ein perthynas gyda chi a rheoli ein gweithrediadau
- Gyhyd ag y bo ni'n darparu nwyddau a/neu wasanaethau i chi ac yna am y cyfnod y gallai rhywun gyflwyno hawliad yn ein herbyn; a/neu
- Cyfnodau cadw gwybodaeth yn unol â'n **gofynion polisi dargadwedd**, gofynion neu ganllawiau cyfreithiol a rheoleiddiol.

---

## 12. Beth yw eich hawliau chi dan ddeddfau diogelu data?

Dyma restr o'r holl hawliau sydd gan unigolion dan ddeddfwriaeth diogelu data. Nid ydynt yn berthnasol yn yr holl amgylchiadau. Os ydych chi'n dymuno defnyddio unrhyw un neu rai ohonynt, gwnawn esbonio bryd hynny a ydynt yn berthnasol ai peidio. Mae'r hawl i gludadwyedd data yn berthnasol o fis Mai 2018 yn unig.

- Yr hawl i **gael eich hysbysu** am brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Yr hawl i **gywiro eich gwybodaeth bersonol os yw'n anghywir** a **chwblhau gwybodaeth bersonol anghyflawn**
- Yr hawl i **wrthwynebu** prosesu eich gwybodaeth bersonol
- Yr hawl i **gyfyngu prosesu** eich gwybodaeth bersonol
- Yr hawl i **ddileu eich gwybodaeth bersonol** (yr "hawl i gael eich anghofio")
- Yr hawl i **ofyn am weld** eich gwybodaeth bersonol a chael gwybodaeth am sut rydym ni'n ei phrosesu
- Yr hawl i **symud, copïo neu drosglwyddo eich data personol** ("cludadwyedd data")

- Hawliau yng nghyswllt **gwneud penderfyniadau awtomatig sy'n cael effaith gyfreithiol neu fel arall yn cael effaith arwyddocaol arnoch chi**

Mae gennych chi'r hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n gyfrifol am orfodi deddfau diogelu data: https://ico.org.uk/. Cewch gysylltu gyda ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

---

## 13. Eich hawl i wrthwynebu

Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth at ddibenion penodol, yn arbennig data a brosesir ar gyfer dibenion marchnata uniongyrchol ac i ddata a brosesir am resymau penodol ar sail ein buddion cyfreithlon. Cewch gysylltu gyda ni yma Cysylltu â Ni - Gofal a ThrwsioGofal a Thrwsio (careandrepair.org.uk) i weithredu'r hawliau hyn.

---

## 14. Beth yw eich dewisiadau marchnata a beth mae hynny'n ei olygu?

Gallem ddefnyddio cyfeiriad eich cartref, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu sianelau digidol (er enghraifft, Gweplyfr, Google a chyfleusterau anfon negeseuon platfformau eraill) i gysylltu gyda chi yn unol â'ch dewisiadau marchnata. Cewch atal ein marchnata ar unrhyw adeg trwy gysylltu gyda ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod neu trwy ddilyn y cyfarwyddiadau yn y cyfathrebiad.

---

## Cysylltu gyda ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad preifatrwydd hwn, neu os ydych chi'n dymuno gweithredu eich hawliau neu gysylltu gyda'r Swyddog Diogelu Data, cewch gysylltu gyda ni trwy Cysylltu â Ni - Gofal a ThrwsioGofal a Thrwsio (careandrepair.org.uk) neu trwy ysgrifennu at Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych, Uned 10-11 Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy LL17 0LJ gan ei nodi at sylw'r Swyddog Diogelu Data.